




Canllaw creu cyfrif ar ddyfais glyfar

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r adnoddau hyn wedi'u casglu ynghyd i'ch cefnogi ochr yn ochr â hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC).

Rydyn ni wedi cynnwys tudalennau gwe yn y ddogfen hon sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i gefnogi eraill. Rydyn ni wedi cynnwys y rhain fel dolenni yn y ddogfen hon. Cadwch lygad am y **symbol dolen pinc** y gallwch ei ddewis gyda'ch cyrchwr neu'ch bys i agor a gweld y ddolen. 

Os ydych chi'n edrych ar adnodd sydd wedi'i brintio, naill ai teipiwch gyfeiriad y wefan i mewn i borwr gwe neu sganiwch y cod QR i agor y dudalen we.

Sut i sganio cod QR

1. Agorwch eich ap cod QR ar eich dyfais. Ar lawer o ffonau clyfar modern, defnyddiwch eich camera.
2. Pwyntiwch y camera at y cod QR a gwnewch yn siŵr fod y cod i gyd yn y ffrâm.
3. Edrychwch ar eich sgrin i weld a oes dolen gwefan wedi ymddangos. Os oes, cyffyrddwch ag ef â'ch bys a bydd yn agor y wefan!



Ynglŷn â dyfeisiau clyfar

Mae dyfeisiau clyfar yn offer digidol gwyb y gall unrhyw un eu defnyddio o gwmpas y cartref i gysylltu â'r rhynggrwyd a chefnogi eu bywyd o ddydd i ddydd.



Gall dyfais glyfar roi cymorth gyda:

- Aros yn gysylltiedig
- Bod yn drefnus
- Dod o hyd i wybodaeth
- Aros wedi eich diddanu
- Rheoli cartrefi clyfar
- Derbyn gwybodaeth neu rybuddion pwysig.

Creu cyfrif

Gallwch ddefnyddio dyfais glyfar mewn llawer o wahanol ffyrdd: mewn gofod cymunedol a rennir neu mewn cartref unigol i gefnogi byw.

Y brif ystyriaeth gydag unrhyw ddefnydd o ddyfeisiau clyfar yw bod y rhain yn unedau defnyddwyr unigol sydd angen cyfrif ar-lein cysylltiedig i'w galluogi i weithredu. Felly, rhaid i chi ystyried pwy yw deiliad y cyfrif mewn unrhyw amgylchiad.

Creu cyfrif

Dyfais glyfar yw unrhyw ddyfais sy'n cysylltu â'r rhyngwrld at ddibenion swyddogaethol. Rheolir y rhain trwy gynorthwydd clyfar, fel arfer naill ai Amazon Alexa neu Google Assistant.

Pan fyddwch chi'n plygio i mewn ac yn troi eich dyfais glyfar am y tro cyntaf, fe'ch anogir i'w gysylltu â chyfrif dyfais glyfar. Bydd y broses ar gyfer hyn yn amrywio o ddyfais i ddyfais ac rydym yn argymhell ymweld â'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys mewn dolen yn y canllaw hwn i gael gwybodaeth gywir.


Mae pobl yn tueddu i ddefnyddio seinyddion clyfar neu arddangosfa glyfar fel ffordd o reoli eu holl ddyfeisiau clyfar. Gallwch hefyd ddefnyddio'ch ffôn clyfar i sefydlu a rheoli dyfeisiau clyfar



Ni waeth pa ddyfais glyfar rydych chi'n ei defnyddio, mae angen cyfrif sydd wedi'i gofrestru i'r ddyfais. Dim ond unwaith y mae angen i chi greu cyfrif, a gallwch ei ddefnyddio ar wahanol ddyfeisiau. Bydd y ddyfais glyfar sydd gennych yn pennu'r cyfrif y mae angen i chi ei greu. Efallai bod gennych chi gyfrif y gallwch ei ddefnyddio eisoes, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio cyn creu un!



Ar gyfer dyfeisiau clyfar, y mae Alexa wedi'i alluogi arnyn nhw, bydd angen i chi greu Cyfrif Amazon.

I gael gwybodaeth am greu Cyfrif Amazon, edrychwch ar y dudalen we hon: <https://amzn.to/4dBEKug> 



Ar gyfer dyfeisiau clyfar y mae Google Assistant wedi'i alluogi arnyn nhw, bydd angen i chi greu Cyfrif Google. Mae'n bosib bod gennych chi gyfrif Google yn barod os ydych chi'n defnyddio Gmail.

I gael gwybodaeth am greu Cyfrif Google, edrychwch ar y dudalen we hon: <https://bit.ly/4dRDmmY> 

Sefydlu eich dyfais glyfar

Mae'r holl ddyfeisiau clyfar y gallwch ddod o hyd iddynt mewn siopau stryd fawr wedi'u dylunio at ddefnydd personol:

- Bydd angen cysylltiad rhyngrwyd arnoch i ddefnyddio dyfais glyfar.
- Yn dibynnu ar y ddyfais, efallai y bydd angen i chi lawrlwytho'r ap sy'n gysylltiedig â'ch ffôn clyfar yn y cam sefydlu cychwynnol. Cyfeiriwch at y canllaw swyddogol ar gyfer hyn.
- Peidiwch â rhannu cyfrineiriau na gwybodaeth eich cyfrif ag unrhyw un.
- Dim ond un cyfrif sydd ei angen arnoch a gallwch gysylltu llawer o ddyfeisiau clyfar newydd ag ef.
- Efallai y bydd angen i chi gefnogi rhywun arall i sefydlu dyfais glyfar. Arweiniwch nhw i sefydlu eu cyfrif eu hunain.



Seinyddion clyfar ac arddangosfeydd Alexa

Gall eich dyfais gyntaf fod yn Echo, yn Echo Show, neu'n Echo Dot. Bydd angen i'r rhain gysylltu â'ch cyfrif Amazon. I sefydlu un o'r dyfeisiau Amazon Alexa hyn, cyfeiriwch at y canllaw hwn:

<https://amzn.to/3WS0ESQ> 

SGANIWCH FI





Seinyddion clyfar ac arddangosfeydd Google

Gall eich dyfais gyntaf fod yn ddyfais Google Home neu Google Nest. Bydd angen i'r rhain gysylltu â'ch cyfrif Google. I sefydlu un o'r dyfeisiau Google Assistant hyn, cyfeiriwch at y canllaw hwn:

<https://bit.ly/3WS5I90> 



Beth nesaf?

I ddysgu mwy am ein cefnogaeth, cysylltwch â ni:



<https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cysylltu-a-ni/> 



0300 111 5050

Dewch o hyd i ni ar



Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan Cwmpas. Mae Cwmpas, a elwid gynt yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.